NEGES BWYSIG I RIENI BLWYDDYN 11

10 Rhagfyr 2020

Annwyl Riant/Ofalwr Blwyddyn 11,

Ymhellach i'm llythyr ddoe yn tanlinellu heriau'r sefyllfa bresennol yma yn Ysgol Gyfun Gwyr, erys pryder am y nifer fawr o achosion o Covid-19 ym Mlwyddyn 11 dros y pythefnos diwethaf. Fe hysbyswyd yr Ysgol **o achos pellach ym Mlwyddyn 11 ddoe** (Dydd Mercher), ac mae gofid bod posibilrwydd y bydd y patrwm beunyddiol hwn a sefydlwyd dros y pedwar diwrnod ar ddeg diwethaf yn parhau eto gyda Blwyddyn 11.

Wedi trafod fel Tîm Rheoli Uwch bore 'ma, teimlwn ei bod hi'n saffach aros tan **Ddydd Llun 14 Rhagfyr** cyn i ni groesawu Blwyddyn 11 nol i'r safle. Mae diogelwch disgyblion a staff yr Ysgol yn flaenoriaeth i ni wrth reswm - rwy'n hyderu eich bod ein deall ein rhesymau am ohirio. Penderfyniad yr Ysgol yw hwn ar sail ein hawydd i ddiogelu iechyd pob aelod o'n cymuned.

Bydd ffrydio ac addysgu rhithiol yn parhau wrth reswm dros y dyddiau nesaf, a disgwylir i ddisgyblion Blwyddyn 11 'fynychu' eu gwersi o hirbell ac i gyflawni eu gwaith yn gydwybodol yn ôl eu harfer.

IMPORTANT MESSAGE FOR YEAR 11 PARENTS

10 December 2020

Dear Year 11 Parent / Carer,

Further to my letter yesterday highlighting the challenges of the current situation here in Ysgol Gyfun Gwyr, we are still about the large number of cases of Covid-19 in Year 11 over the past two weeks. The School was informed of a **further case in Year 11 yesterday** (Wednesday), and there is concern that this day-to-day pattern established over the last fourteen days may continue again with Year 11.

Having discussed as a Senior Management Team this morning, we feel it is safer to wait until **Monday 14 December** before we welcome Year 11 back to the site. The safety of the School's pupils and staff is of course our priority - I trust that you understand our reasons for delaying the return. This is the School's decision based on our desire to protect the health of all members of our community.

Virtual streaming and teaching will of course continue over the next few days, and Year 11 pupils will be expected to 'attend' their lessons remotely and carry out their work conscientiously as per usual.

Dafydd Jenkins
Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk